

**Cyfansoddiad**  
ar gyfer  
**Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru**  
**(Elusen a Eithrir)**

**Mabwysiadwyd ar yr unfed dydd ar ddeg o fis Mai 2009**

1	DEHONGLI.....	2
2	ENW .....	3
3	NODAU AC AMCANION.....	3
4	AELODAETH .....	4
5	Y LLYWYDD/CYMEDROLWR .....	5
6	YR YMDDIRIEDOLWYR .....	6
7	DYLETSWYDD GOFAL A CHWMPAS ATEBOLRWYDD .....	7
8	CYFARFODYDD A CHYFLAWNI BUSNES .....	7
9	PWERAU YMDDIRIEDOLWYR.....	8
10	Y DEFNYDD O ARIAN AC EIDDO .....	10
11	COFNODION A CHYFRIFON .....	<u>12</u>
12	HYSBYSIADAU.....	12
13	DIWYGIADAU.....	<u>13</u>
14	DIDDYMU.....	13
	Atodiad A.....	15

## 1 DEHONGLI

Yn y Cyfansoddiad hwn:

1.1 Ystyr 'Cyfarfod' yw Cyfarfod Cyffredinol o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a all fod yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) neu'n Gyfarfod Cyffredinol Arbennig (EGM);

Ystyr 'Llywydd/Cymedrolwr' yw'r sawl a benodir gan yr Ymddiriedolwyr sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith i lywyddu yn eu Cyfarfodydd ac i gynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiadau crefyddol;

Ystyr 'Cyngorydd Proffesiynol' yw'r sawl a benodir o Cytûn i ddarparu cymorth gweinyddol i Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a chyngor proffesiynol i'r Llywydd/Cymedrolwr;

Ystyr 'Swyddogion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru' yw'r Llywydd/Cymedrolwr, y Llywydd/Cymedrolwr diwethaf a'r Trysorydd;

Cyfeiria 'Anghydfurfiwr/Anghydfurfiol' at unigolyn o Gristion neu Eglwys sy'n perthyn i unrhyw Eglwys neu Enwad nad yw'n Anglicanaidd. Yn y bôn, golyga hynny Eglwys nad ydynt yn arfer ordeinio Esgobaethol fel y diffinnir hynny gan Ddeddf Unffurfiaeth 1662.

Ystyr 'yr Elusen' yw Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru;

Mae i 'Ymddiriedolwyr yr Elusen' yr ystyr a bennir yn Adran 97(1) Deddf Elusennau 1993. Y rhai sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith, fel y'u rhestrir ar y Gofrestr, yw Ymddiriedolwyr yr Elusen ar gyfer yr Elusen am y tro;

Ystyr 'y Pwyllgor Gwaith' yw'r grŵp o Ymddiriedolwyr a sefydlwyd ar gyfer y dibenion a nodir yng Nghymal 3, wedi'u hethol yn unol â Chymal 6;

Ystyr 'y Cyfarfod' yw Cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr;

Ystyr 'Diwrnod Clir' yw 24 awr yn cyfrif o'r hanner nos yn dilyn y digwyddiad perthnasol;

Ystyr 'y Comisiwn' yw'r Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr;

Ystyr 'y Flwyddyn Ariannol' yw Blwyddyn Ariannol yr Elusen;

Mae 'ffym' yn cynnwys partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;

Mae i 'Arolygydd Annibynnol' yr ystyr a ddynodir gan Adran 43(3)(a) Deddf Elusennau 1993;

Ystyr 'budd sylweddol' yw budd nad yw o reidrwydd yn ariannol ond sydd â gwerth ariannol;

Ystyr ‘Enwad sy’n Aelod’ yw enwad sy’n rhan o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru;

Ystyr ‘misoedd’ yw misoedd calendr;

Ystyr ‘y Nodau ac Amcanion’ yw amcanion elusennol Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru;

Ystyr ‘Ymddiriedolwr’ yw Rheolwr Ymddiriedolwr;

Cyfeiria’r termau ‘ysgrifenedig’ neu ‘mewn ysgrifen’ at ddogfen ddarllenadwy ar bapur gan gynnwys neges ffacs.

- 1.2 Mae cyfeiriadau at Ddeddf Seneddol yn gyfeiriadau at y Ddeddf fel y’i diwygiwyd neu ei haildeddfu o bryd i’w gilydd ac at unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed dan y Ddeddf honno.

## **2 ENW**

Enw’r Sefydliad a’r Elusen yw Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

## **3 NODAU AC AMCANION**

- 3.1 Prif Nod Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yw “Hyrwyddo’r grefydd Gristnogol drwy ledaenu’r adnabyddiaeth o Iesu Grist drwy athrawiaeth neilltuol yr Eglwysi Anghydfurfiol yng Nghymru.”

- 3.2 Yn benodol, bydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn gwneud y canlynol:

3.2.1 Mynegi undod sylfaenol Eglwysi Anghydfurfiol Cymru yng Nghrist;

3.2.2 Annog Enwadau sy’n Aelodau i barhau i gydaddoli drwy rydd ymgynnull mewn adeiladau cysegredig a lleoedd eraill, gan gydnabod bod Enwad sy’n Aelod yn parhau’n rhydd i gyflawni ei dystiolaeth a’i genhadaeth arbennig ei hun;

3.2.3 Hybu cysylltiadau da rhwng arweinwyr yr Enwadau sy’n Aelodau drwy waith y Cyngor a, pan awdurdodir hynny, datblygu a chynnal cysylltiadau â Cytûn;

3.2.4 Hybu cymdeithas a gweithredu ar y cyd pan fo hynny’n bosibl â changhennau eraill o’r Eglwys drwy’r byd a chydweithio’n arbennig â Cytûn, Grŵp Eglwysi Rhyddion Cymru a Lloegr ac Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.

3.2.5 Sicrhau y clywir y llais Anghydfurfiol ynghylch materion o bwys yn genedlaethol ac yn lleol, yn arbennig materion yn ymwneud â Chaplaniaethau, Addysg, a Datblygiad Ysbrydol;

- 3.2.6 Drwy'r Llywydd/Cymedrolwr, sicrhau y cynrychiolir yr Enwadau sy'n Aelodau mewn digwyddiadau crefyddol ac ysbrydol;
- 3.2.7 Drwy'r Llywydd/Cymedrolwr, sicrhau y cynrychiolir yr Enwadau sy'n Aelodau mewn digwyddiadau eraill pan ystyrir bod hynny'n briodol;
- 3.2.8 Gweithredu fel Corff Llywodraethu'r Llywydd/Cymedrolwr a bod yn gefn i ddeiliad y swydd honno drwy weddi a ffydd weithredol;
- 3.2.9 Cefnogi'n ymarferol y Cyngorau Eglwysi Rhyddion Rhanbarthol a chynorthwyo'r Cyngorau hynny drwy annog eglwysi lleol i ddod yn aelodau o'r Cyngorau Rhanbarthol a'r Cyngorau Ardal.
- 3.2.10 Gwneud popeth arall sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Amcanion hyn.

## 4 AELODAETH

- 4.1 Mae aelodaeth Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn cynnwys yr enwadau canlynol:
  - 4.1.1 Undeb Bedyddwyr Cymru
  - 4.1.2 Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr
  - 4.1.3 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
  - 4.1.4 Eglwys Bresbyteraidd Cymru
  - 4.1.5 Ffederasiwn Cynulleidfaol Cymru
  - 4.1.6 Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
  - 4.1.7 Byddin yr Iachawdwriaeth (Cymru)
  - 4.1.8 Y Cynulleidfaoedd Lutheraidd, Diwygiedig ac Unedig Almaeneg eu hiaith yng Nghymru
- 4.2 Gall unrhyw enwad sydd â diddordeb mewn hybu Nodau ac Amcanion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru wneud cais i ymaelodi. Fodd bynnag, bydd y meini prawf canlynol yn gymwys:
  - 4.2.1 Rhaid i'r enwad fod â chymeradwyaeth ei chorff cenedlaethol ei hun;
  - 4.2.2 Rhaid i'r enwad dderbyn athrawiaeth y Drindod a hybu'r ddealltwriaeth o'r Duw Triunol yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân;
  - 4.2.3 Rhaid gwneud y cais yn ysgrifenedig a bydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn ystyried y cais mewn cyfarfod agored;
- 4.3 Gall pob Enwad sy'n Aelod benodi tri chynrychiolydd i fynychu Cyfarfodydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Dylai un ohonynt fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol, Llywydd neu Arweinydd Enwadol arall er mwyn sicrhau y clywir barn strategol yr enwad yng Nghyfarfodydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.
- 4.4 Yn ogystal ag unigolion a benodir i gynrychioli Enwadau sy'n Aelodau, gall Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru enwebu neu gyfethol unigolion i fod yn

Aelodau o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Bydd hynny'n galluogi unigolion sydd â galluoedd neu sgiliau penodol i gyfrannu tuag at gyflawni Nodau ac Amcanion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

4.4.1 Aelodau Enwebedig  
Dylid enwebu unigolion yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a rhaid trafod adolygiad o Aelodau Enwebedig yn flynyddol.

4.4.2 Aelodir Cyfetholedig  
Gellir cyfethol unigolion unrhyw adeg a gallant un ai aros yn eu swydd am gyfnod amhenodol neu ddod yn Aelodau Enwebedig yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf. Gellir cyfethol unigolion drwy orchymyn uniongyrchol y Llywydd os bydd cefnogaeth gyffredinol oddi wrth yr Enwadau sy'n Aelodau.

4.4.3 Ni all y nifer o Aelodau Enwebedig ac Aelodau Cyfetholedig fod yn fwy na'r cyfanswm o Aelodau sy'n cynrychioli'r Enwadau sy'n Aelodau.

4.4.4 Bydd y Llywydd/Cymedrolwr, y Llywydd/Cymedrolwr diwethaf a Thrysorydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn Aelodau Unigol Enwebedig o'r Cyngor ac oherwydd hynny ni fyddant yn cynrychioli Enwadau sy'n Aelodau heblaw bod yr enwad a anfonodd yr Aelod yn dymuno i'r unigolyn weithredu felly. Os digwydd hynny, bydd raid i'r unigolyn ddod yn un o'r tri chynrychiolydd enwadol a ddisgrifir ym mharagraff 4.3 uchod.

4.4.5 Bydd Prif Weithredwr Cytûn a'r Cynghorydd Proffesiynol i Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn Aelodau Cyfetholedig o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

4.5 Rhaid i Gynghorydd Proffesiynol yr Elusen gadw'n ddiogel Gofrestr o enwau a chyfeiriadau'r Aelodau a'r Ymddiriedolwyr a rhaid i'r Gofrestr honno fod ar gael i unrhyw Aelod neu Ymddiriedolwr ei gweld o wneud cais am hynny.

4.6 Gall Enwad sy'n Aelod ddiddymu ei aelodaeth gyda chymeradwyaeth ei gorff cenedlaethol ar unrhyw adeg. Pe byddai Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, er mor annhebygol yw hynny, yn peidio â bod yn gynrychioliadol o'r eglwysi anghydfurfiol yn y brif ffrwd, rhaid cynnal Cyfarfod Arbennig o weddill yr Aelodau a gwneud penderfyniad ynghylch parhad Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

## **5 Y LLYWYDD/CYMEDROLWR**

5.1 Y Llywydd/Cymedrolwr yw'r sawl a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith i lywyddu yn eu Cyfarfodydd ac i gynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiadau crefyddol. Mae'r teitl yn gydgyfnewidiol i gymryd ystyriaeth o ddewisiadau enwadol.

- 5.2 Comisiynir y Llywydd/Cymedrolwr gan Gyngor yr Eglwysi Rhyddion am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Gellir ymestyn y cyfnod hwnnw drwy gydgytundeb am ddeuddeng mis pellach a'i ymestyn yn flynyddol ar ddau achlysur arall. Ni fydd unrhyw Lywydd/Cymedrolwr yn gwasanaethu am fwy na chwe blynedd yn olynol. Ar ôl cyfnod i ffwrdd o'r Swydd, gellir comisiynu unigolion i wasanaethu am gyfnodau pellach.
- 5.3 Dewisir y Llywydd/Cymedrolwr ar sail cylchdro drwy gydgytundeb o blith yr Enwadau sy'n Aelodau. Pan newidir y Llywydd/Cymedrolwr, rhaid i ddeiliad newydd y swydd ddod o enwad gwahanol i'r Llywydd/Cymedrolwr blaenorol.

## 6 YR YMDDIRIEDOLWYR

- 6.1 Bydd yr holl unigolion a benodir gan yr Enwadau sy'n Aelodau fel cynrychiolwyr swyddogol a'r holl Aelodau Enwebedig yn Rheolwyr Ymddiriedolwyr Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Bydd y Rheolwyr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Cyngor o ddydd i ddydd yn unol â'i statws fel Elusen, yn enwedig ymdrin ag unrhyw adeiladau, eiddo ac arian y mae Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn berchen arnynt neu'n eu dal ar brydles.
- 6.2 Lleiafswm y nifer o Ymddiriedolwyr yw un o bob Enwad sy'n Aelod a'r holl Aelodau Enwebedig ar y pryd. Nid oes uchafswm.
- 6.3 Bydd yr Ymddiriedolwyr a nodir yng Nghymal 5.2 yn ffurfio Pwyllgor Gwaith Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Bydd y Pwyllgor Gwaith felly'n cynnwys:
- 6.3.1 Swyddogion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, sef y Llywydd/Cymedrolwr, y Trysorydd a'r Llywydd/Cymedrolwr diwethaf;
  - 6.3.2 Un Ymddiriedolwr a etholwyd gan bob Enwad sy'n Aelod;
  - 6.3.3 Unrhyw Ymddiriedolwr a enwebwyd gan y Pwyllgor Gwaith.
- 6.4 Cedwir Cofrestr o'r Enwadau sy'n Aelodau a'r Ymddiriedolwyr a'i chadw'n ddiogel gan y Cyngorydd Proffesiynol.
- 6.5 Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr lofnodi datganiad ei fod yntau neu ei bod hithau'n barod i weithredu fel Ymddiriedolwr Elusen ar gyfer yr Elusen. Cedwir y datganiadau wedi'u llofnodi'n ddiogel gyda'r Gofrestr.
- 6.6 Bydd Ymddiriedolwr yn peidio â bod yn Ymddiriedolwr os bydd:
- 6.6.1 yn peidio â bod yn Ymddiriedolwr o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Elusennau 1993 (neu unrhyw ailddeddfu neu ddiwygio statudol ar y ddarpariaeth honno);

- 6.6.2 yn cael ei (h)anghymwyso rhag gweithredu fel Ymddiriedolwr o ganlyniad i Adran 72 Deddf Elusennau 1993 (neu unrhyw ailddeddfu neu ddiwygio ar y ddarpariaeth honno);
  - 6.6.3 yn absennol heb achos da o bedwar o Gyfarfodydd yn olynol a bod mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu y dylid ei (d)diswyddo;
  - 6.6.4 yn ymddiswyddo drwy rybudd ysgrifenedig i Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru;
  - 6.6.5 yn cael ei (d)diswyddo am reswm da a digonol drwy benderfyniad a gefnogir gan o leiaf ddwy ran o dair o'r Ymddiriedolwyr eraill ar ôl iddynt wahodd sylwadau'r Ymddiriedolwr dan sylw ac ystyried y mater yng ngoleuni unrhyw sylwadau a wnaed.
- 6.7 Ni fydd gwall technegol yn y modd y penodwyd Ymddiriedolwr, nad yw'r Cyfarfod yn ymwybodol ohono ar y pryd, yn peri bod penderfyniadau a wneir yn y Cyfarfod yn annilys.
- 6.8 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol gan dalu sylw priodol i gyfeiriad ysbrydol yr Elusen fel y'i gosodir o bryd i'w gilydd, gan weithredu bob adeg yn unol â gofynion y Cyfansoddiad hwn a'r gyfraith yn gyffredinol.

## **7 DYLETSWYDD GOFAL A CHWMPAS ATEBOLRWYDD**

Wrth ddefnyddio unrhyw bŵer (boed wedi'r roi gan y Cyfansoddiad hwn neu gan statud neu gan unrhyw reol gyfreithiol) wrth weinyddu neu reoli'r Elusen rhaid i bob un o'r Ymddiriedolwyr ddefnyddio'r lefel gofal a sgiliau a fo'n rhesymol o dan yr amgylchiadau, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig sydd ganddo/ganddi neu mae'n honni bod ganddo/ganddi ("dyletswydd gofal"). Ni fydd unrhyw Ymddiriedolwr na neb sy'n defnyddio pwerau neu gyfrifoldebau a ddirprwywyd i'r unigolyn dan sylw gan y Cyfarfod yn atebol am unrhyw weithred neu fethiant i weithredu oni bai fod yntau/hithau, wrth weithredu neu beidio â gweithredu, wedi methu â chyflawni ei (d)dyletswydd gofal.

## **8 CYFARFODYDD A CHYFLAWNI BUSNES**

- 8.1 Rhaid cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn ystod pob blwyddyn. Bydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Adwaenir Cyfarfodydd ar wahân i'r CCB fel Cyfarfodydd Cyffredinol.
- 8.2 Mewn CCB bydd yr Ymddiriedolwyr yn:
  - 8.2.1 derbyn cyfrifon yr Elusen ar gyfer y Flwyddyn Ariannol flaenorol;

- 8.2.2 derbyn adroddiadau'r Ymddiriedolwyr ar weithgareddau'r Elusen ers y CCB blaenorol;
  - 8.2.3 derbyn yn ffurfiol a chofnodi ymddiswyddiad(au) yr Ymddiriedolwyr hynny a ymddiswyddodd ers y CCB blaenorol;
  - 8.2.4 penodi archwiliwr neu Arolygydd Annibynnol ar gyfer yr Elusen;
  - 8.2.5 trafod a phenderfynu ynghylch unrhyw faterion polisi neu ymdrin ag unrhyw faterion eraill a ddygir ger eu bron.
- 8.3 Rhaid i Ymddiriedolwyr fynychu Cyfarfodydd yn bersonol er mwyn pleidleisio. Gelwir Cyfarfodydd, boed Gyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol neu Gyfarfodydd Cyffredinol, drwy roi o leiaf 21 Diwrnod Clir o rybudd i'r Ymddiriedolwyr. Rhaid hysbysu ynghylch y materion sydd i'w trafod mewn Cyfarfod Cyffredinol.
- 8.4 Gan nad yw Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn gorfodi dim ar unrhyw enwad a chan fod mabwysiadu unrhyw fenter neu broses yn fater cwbl wirfoddol, nid oes cworwm o Ymddiriedolwyr sy'n ofynnol er mwyn cyflawni busnes. Fodd bynnag, os bydd penderfyniadau i'w gwneud sy'n cynnwys materion ariannol, ni ellir trafod y materion hynny oni bai fod Swyddogion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a chynrychiolwyr o leiaf ddau o'r Enwadau sy'n Aelodau yn bresennol.
- 8.5 Y Llywydd/Cymedrolwr fel arfer fydd Cadeirydd unrhyw Gyfarfod o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Os na fydd y Llywydd/Cymedrolwr yn gallu neu os na fydd yn fodlon gwneud hynny bydd un o'r Ymddiriedolwyr eraill, a etholir gan y rhai fydd yn bresennol, yn cadeirio'r Cyfarfod.
- 8.6 Oni bai fod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, penderfynir ar bob mater drwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau a gaiff eu bwrw gan yr Ymddiriedolwyr sy'n bresennol ac yn cynrychioli Enwadau sy'n Aelodau, Bydd hawl gan Aelodau Enwebedig ac Aelodau Cyfetholedig i fynegi eu barn ond ni fydd ganddynt yr hawl i bleidleisio.
- 8.7 Ni fydd gan Gadeirydd y Cyfarfod (os yw'n cynrychioli Enwad sy'n Aelod) bleidlais fwrw. Ni fydd gan Gadeirydd sy'n Aelod Enwebedig bleidlais, fel yr eglurir yng Nghymal 8.6.

## **9 PWERAU YMDDIRIEDOLWYR**

Rhaid i'r Ymddiriedolwyr reoli busnes yr Elusen a bydd ganddynt y pwerau a ganlyn wrth hyrwyddo'r Nodau ac Amcanion:

- 9.1 Ethol Llywydd/Cymedrolwr, Trysorydd a Swyddogion mygedol eraill i wasanaethu am gyfnod o dair blynedd, a fyddant yn gymwys i'w haillethol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw;



- 9.2 Dirprwyo unrhyw rai o'u swyddogaethau i bwyllgorau'n cynnwys dau neu ragor o unigolion a benodwyd ganddynt (ar yr amod bod rhaid hysbysu'r Cyfarfod yn brydlon ynghylch trafodion unrhyw bwyllgor);
- 9.3 Gwneud rheolau neu reoliadau sy'n gydnaws â'r Cyfansoddiad hwn i reoli'r trafodion mewn Cyfarfodydd, trafodion pwyllgorau a gweinyddiad yr Elusen (gan gynnwys rheoli cyfrifon banc ac unrhyw wariant);
- 9.4 Datrys anghydfodau o fewn yr Elusen neu sefydlu gweithdrefnau i gynorthwyo gyda datrys anghydfodau o'r fath;
- 9.5 Gweinyddu unrhyw rai o bwerau'r Elusen nad ydynt yn perthyn yn unig i Gyfarfod;
- 9.8 Hyrwyddo ymchwil neu gyflawni ymchwil;
- 9.9 Darparu cyngor;
- 9.10 Cyhoeddi neu ddsbarthu gwybodaeth;
- 9.11 Cydweithredu â chyrff eraill;
- 9.12 Cynorthwyo a symbylu Enwadau sy'n Aelodau;
- 9.13 Gweinyddu neu sefydlu elusennau eraill;
- 9.13 Codi arian (ond nid drwy fasnachu trethadwy);
- 9.14 Benthg arian a gwarantu benthyciadau (ond dim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Elusennau 1993);
- 9.15 Gorchymyn yr Ymddiriedolwr sy'n Geidwad / Ymddiriedolwyr sy'n Geidwaid i sicrhau neu waredu eiddo neu adeiladau (ond dim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Elusennau 1993);
- 9.16 Gosod neu rentu eiddo neu adeilad neu ran o adeilad (ond dim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Elusennau 1993);
- 9.17 Dyfarnu grantiau neu fenthyciadau ariannol a rhoi gwarantiadau;
- 9.18 Clustnodi arian ar gyfer dibenion neilltuol neu fel cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant yn y dyfodol;
- 9.19 Gosod arian mewn cyfrifon neu fuddsoddi arian mewn unrhyw fodd cyfreithlon;
- 9.20 Dirprwyo'r gwaith o reoli buddsoddiadau yn unol â darpariaethau Deddf Ymddiriedolwyr 2000;

- 9.21 Yswirio eiddo'r Elusen rhag unrhyw risgiau y gellir eu rhagweld a threfnu polisïau yswiriant eraill i amddiffyn yr Elusen pan fo angen;
- 9.22 Yswirio'r Ymddiriedolwyr rhag costau ymladd yn llwyddiannus erlyniad troseddol yn eu herbyn fel ymddiriedolwyr elusen neu rhag atebolrwydd personol o ganlyniad i unrhyw weithred neu esgeulustod sydd yn dor-ymddiriedaeth neu'n dor-dyletswydd neu unrhyw honiad o'r fath (oni bai fod yr Ymddiriedolwyr dan sylw'n gwybod bod y weithred neu'r esgeulustod yn dor-ymddiriedaeth neu'n dor-dyletswydd neu wedi bod yn ddi-hid ynghylch a oedd felly ai peidio);
- 9.23 Talu ffioedd rhesymol i unrhyw enwebai, ceidwad neu Ymddiriedolwr Daliannol;
- 9.24 Yn ddarostyngedig i Gymal 10, cyflogi asiantiaid, aelodau staff neu gynghorwyr neu sicrhau eu gwasanaeth mewn unrhyw ffordd arall;
- 9.25 Cytuno ar contractau i ddarparu gwasanaethau i gyrff eraill neu ar eu rhan;
- 9.26 Talu costau ffurfio'r Elusen;
- 9.27 Gwneud unrhyw beth arall o fewn y gyfraith sy'n hyrwyddo neu'n cynorthwyo i hyrwyddo Nodau ac Amcanion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

## **10 Y DEFNYDD O ARIAN AC EIDDO**

- 10.1 Gall unrhyw Ymddiriedolwr sy'n berchen ar sgiliau neu wybodaeth arbenigol ac unrhyw ffyrn neu gwmni y mae Ymddiriedolwr yn aelod ohono, yn bartner ynddo neu'n ymgynghorwr, ymddiriedolwr, swyddog neu gyflogai iddo godi a derbyn ffioedd rhesymol ar gyfer nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r Elusen ar orchymyn yr Ymddiriedolwyr eraill (ond dim ond os yw'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod hynny'n unol â'r gofynion a nodir yng nghymal 10.2).
- 10.2 Ni chaiff y mwyafrif o'r Ymddiriedolwyr elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar unrhyw adeg ar daliadau a wneir yn unol â chymal 10.1. Os byddai taliad i unigolyn sy'n gysylltiedig ag Ymddiriedolwr o fudd anuniongyrchol i'r Ymddiriedolwr ac y byddai gwneud y taliad dan sylw'n peri y byddai'r nifer o Ymddiriedolwyr a fyddai'n elwa'n fwyafrif o'r Ymddiriedolwyr yna rhaid sicrhau cydsyniad y Comisiwn mewn ysgrifen ymlaen llaw.
- 10.3 Yn ddarostyngedig i ofynion Cymal 10.2, gellir penodi unigolyn yn Ymddiriedolwr neu gall unigolyn ddod yn Ymddiriedolwr er gwaethaf y ffaith ei fod yntau neu ei bod hithau'n cael ei gyflogi neu ei chyflogi gan yr Elusen neu'n gweithio mewn unrhyw ffordd arall i'r Elusen ac yn derbyn cydnabyddiaeth yn sgil hynny.

- 10.4 Ni chaiff unrhyw Ymddiriedolwr dderbyn unrhyw daliad ariannol nac unrhyw fudd sylweddol arall (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) oddi wrth yr Elusen heblaw:-
- 10.4.1 O dan gymalau'n ymwneud ag yswiriant indemniad a ffioedd ar gyfer cyflogaeth a gwasanaethau.
  - 10.4.2 Ad-dalu mân-dreuliau rhesymol (gan gynnwys costau gwesty a theithio) a ddeilliodd yn wirioneddol o waith gweinyddu'r Elusen;
  - 10.4.3 Llog ar raddfa resymol ar arian a fenthyciwyd i'r Elusen;
  - 10.4.4 Rhent neu ffi llogi resymol ar eiddo a osodwyd neu a logwyd i'r Elusen;
  - 10.4.5 Indemniad ar gyfer unrhyw atebolrwydd a ddaeth yn briodol i ran yr Ymddiriedolwr mewn cysylltiad â gweinyddu'r Elusen (gan gynnwys costau ymladd achos troseddol yn llwyddiannus);
  - 10.4.6 Buddion a dderbynnir gan yr Ymddiriedolwr pan nad yw'r buddion hynny'n wahanol o gwbl i'r rhai a dderbynnir gan Ymddiriedolwyr eraill;
  - 10.4.7 Mewn achosion eithriadol, taliadau neu fuddion eraill (ond dim ond pan fydd y Comisiwn wedi cydsynio i hynny mewn ysgriflen ymlaen llaw).
- 10.5 Pryd bynnag y bydd gan Ymddiriedolwr neu unigolyn sy'n gysylltiedig ag Ymddiriedolwr fuddiant personol mewn mater sydd i'w drafod mewn Cyfarfod o'r Cyngor neu gyfarfod o unrhyw bwyllgor, rhaid i'r Ymddiriedolwr neu'r sawl sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr wneud y canlynol:
- 10.5.1 Datgan buddiant cyn i'r drafodaeth ar y mater gychwyn;
  - 10.5.2 Gadael y Cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem honno oni wahoddir yr Ymddiriedolwr yn benodol i aros i ddarparu gwybodaeth;
  - 10.5.3 Peidio cael ei gyfrif/chyfrif fel rhan o'r cworwm ar gyfer y rhan honno o'r Cyfarfod;
  - 10.5.4 Gadael y Cyfarfod yn ystod y bleidlais a pheidio â bod â phleidlais ar y mater.
- 10.6 Rhaid gosod arian nad oes ei angen i'w ddefnyddio'n syth ond y bydd ei angen ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol mewn cyfrif cadw neu ei fuddsoddi hyd yr adeg y bydd ei angen.
- 10.7 Gellir dal buddsoddiadau, hawl i adeiladau ac eiddo arall sy'n perthyn i'r Elusen:

- 10.7.1 yn enw Ymddiriedolwyr Daliannol unigol y bydd raid ei benodi/phenodi (ac y gellir ei (d)disodli) drwy weithred a wneir gan y Cyfarfod;
- 10.7.2 yn achos tir, gan y Ceidwad Swyddogol ar gyfer Elusennau o dan orchymyn gan y Comisiwn neu gan Lys.

## **11 COFNODION A CHYFRIFON**

- 11.1 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 1993 parthed cadw cofnodion ariannol, archwilio cyfrifon a'u harolygu'n annibynnol a pharatoi datganiadau blynyddol, adroddiadau blynyddol a datganiadau o gyfrifon blynyddol a'u hanfon at y Comisiwn ynghyd â chadarnhad ynghylch newid yr Ymddiriedolwr sy'n Geidwaid neu unrhyw un o'r manylion am yr Elusen a gofnodir yn y Gofrestr Ganolog o Elusennau.
- 11.2 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadw cofnodion priodol o'r holl drafodion mewn Cyfarfodydd, holl adroddiadau pwyllgorau a phob cyngor proffesiynol a gafwyd.
- 11.3 Rhaid i gofnodion ariannol, adroddiadau blynyddol a datganiadau o gyfrifon yr Elusen am o leiaf y chwe blynedd flaenorol fod ar gael i'w harchwilio gan unrhyw Aelod neu Ymddiriedolwr.
- 11.4 Rhaid darparu copi o'r datganiad o gyfrifon diweddaraf sydd ar gael ar gyfer yr Elusen i unrhyw un sy'n gwneud cais ysgrifenedig am hynny ac sy'n talu costau rhesymol yr Elusen (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Elusennau 1993).

## **12 HYSBYSIADAU**

- 12.1 Rhaid cyflwyno hysbysiadau o dan y Cyfansoddiad hwn yn ysgrifenedig neu'n electronig a gellir eu cyflwyno'n bersonol, drwy'r post neu drwy ddulliau electronig addas.
- 12.2 Y cyfeiriad y mae hawl gan Aelod neu Ymddiriedolwr i dderbyn hysbysiadau iddo yw'r cyfeiriad a nodir yn y Gofrestr o Aelodau/Ymddiriedolwyr.
- 12.3 Ystyrir i bob diben bod pob hysbysiad a gyflwynir yn unol â'r Cyfansoddiad hwn wedi'i dderbyn:
  - 12.3.1 24 awr ar ôl ei anfon drwy ddull electronig neu ei gludo'n bersonol i'r cyfeiriad perthnasol;
  - 12.3.2 ddau Ddiwrnod Clir ar ôl ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf i'r cyfeiriad hwnnw;
  - 12.3.3 dri Diwrnod Clir ar ôl ei anfon drwy bost ail ddsbarth neu bost tramor i'r cyfeiriad hwnnw;

- 12.3.4 yn syth ar ôl ei roi i'r Ymddiriedolwr yn bersonol neu pan gyflwynir y neges ar lafar yn unol â Chymal 5.3;
  - 12.3.5 cyn gynted ag y bydd Ymddiriedolwr yn cydnabod derbyn yr hysbysiad, os bydd hynny'n gynharach.
- 12.4 Ni fydd gwall technegol yn ymwneud â chyflwyno hysbysiad nad yw'r Ymddiriedolwyr yn gwybod amdano ar y pryd yn dirymu penderfyniadau a wnaed mewn Cyfarfod.

### **13 DIWYGIADAU**

- 13.1 Gellir diwygio'r Cyfansoddiad hwn mewn Cyfarfod Cyffredinol ar yr amod:-
- 13.1.1 na ellir gwneud unrhyw ddiwygiad i'r Cymal hwn y byddai iddo'r effaith o beri i'r Elusen beidio â bod yn elusen yn ôl y gyfraith nac un a fyddai'n newid yr Amcanion pe na fyddai'r newid hwnnw yn rhywbeth y gallai'r Aelodau neu'r sawl sy'n cyfrannu tuag at yr Elusen yn rhesymol ei dderbyn;
- 13.2 Gellir diwygio unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cyfansoddiad hwn ar yr amod y rhoir 21 Diwrnod Clir o rybudd i'r Ymddiriedolwyr a bod dim llai na dwy ran o dair o'r Ymddiriedolwyr sydd yn bresennol ac yn pleidleisio yn cydsynio â'r diwygiad.
- 13.3 Rhaid anfon copi o unrhyw benderfyniad sy'n diwygio'r Cyfansoddiad hwn i'r Comisiwn o fewn 21 diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad.


### **14 DIDDYMU**

- 14.1 Os bydd Cyfarfod llawn o Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru'n penderfynu diddymu'r Elusen, gall yr Ymddiriedolwyr, heb eu hawdurdodi gan lys, ar ôl darparu ar gyfer holl rwymedigaethau'r Elusen sy'n aros, ymdrin ag unrhyw eiddo ac arian mewn un neu ragor o'r ffyrdd canlynol:
- 14.1.1 Penodi Ymddiriedolwyr i reoli'r eiddo a'r arian yn unol â'r Nodau a'r Amcanion er diben adfywio'r Elusen hyd yr adeg y bydd y nifer o Aelodau wedi cynyddu, pryd y gallant benderfynu galw Cyfarfod Cyffredinol lle bydd yr Aelodau'n dod yn Rheolwyr Ymddiriedolwyr a fydd yn gyfrifol am reoli a gweinyddu adeiladau, eiddo ac arian yr Elusen o ddydd i ddydd, yn unol â'r Cyfansoddiad hwn;
  - 14.1.1 Trosglwyddo'r asedau i unrhyw elusen neu elusennau a sefydlwyd yn unig er dibenion elusennol sydd yr un â'r Nodau a'r Amcanion neu'n debyg iddynt;

- 14.1.2 Cymryd y camau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i werthu unrhyw eiddo y mae'r Elusen yn berchen arno a defnyddio'r arian a godir ar gyfer amcanion tebyg;
  - 14.1.3 Ym mha fodd bynnag arall ag y bydd y Comisiwn yn ei gymeradwyo'n ysgrifenedig ymlaen llaw.
- 14.2 Pan gwblheir unrhyw un o'r camau uchod, rhaid anfon adroddiad a datganiad o gyfrifon terfynol Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru i'r Comisiwn.

## Atodiad A

Siart Trefniadol - Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru



MABWYSIADWYD Y CYFANSODDIAD UCHOD MEWN CYFARFOD CYFFREDINOL  
O GYNGOR EGLWYSI RHYDDION CYMRU A GYNHALIWDYD YN

.....  
AR .....

LLOFNODWYD

Enw .....

Llofnod .....  
*[Cadeirydd y Cyfarfod]*

<p>ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:</p> <p>Enw .....</p> <p>Cyfeiriad .....</p> <p>Swydd .....</p> <p>Llofnod .....</p>	<p>ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:</p> <p>Enw .....</p> <p>Cyfeiriad .....</p> <p>Swydd .....</p> <p>Llofnod .....</p>
<p>ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:</p> <p>Enw .....</p> <p>Cyfeiriad .....</p> <p>Swydd .....</p> <p>Llofnod .....</p>	<p>ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:</p> <p>Enw .....</p> <p>Cyfeiriad .....</p> <p>Swydd .....</p> <p>Llofnod .....</p>



ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

Swydd .....

Llofnod .....

ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

Swydd .....

Llofnod .....

ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

Swydd .....

Llofnod .....

ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

Swydd .....

Llofnod .....

ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

Swydd .....

Llofnod .....

ARDYSTIAD YMDDIRIEDOLWR:

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

Swydd .....

Llofnod .....